Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Talocher

## Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Talocher

Mae Ysgol Talocher yn ysgol annibynnol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM), cyflwr y sbectrwm awtistig (CSA) ac anghenion cysylltiedig. Mae'r ysgol wedi'i lleoli ar gyrion Trefynwy, ac yn cael ei gweinyddu gan Aspris Children's Services, sy'n rhan o bortffolio Waterland Group, sef cwmni buddsoddi ecwiti preifat. Yr enw blaenorol ar yr ysgol oedd Ysgol Priory Talocher.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at 60 o ddisgyblion rhwng 7 ac 19 oed. Mae 38 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, ac mae gan bob un ohonynt gynllun datblygu unigol (CDU), datganiad o anghenion addysgol arbennig, neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG).

Roedd arolygiad craidd diwethaf yr ysgol ym mis Chwefror 2020. Ar yr adeg hon, nid oedd yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Safon 1 Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, sef ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol. Ers yr arolygiad craidd, mae llawer o newidiadau wedi bod i'r timau arweinyddiaeth, staffio a therapiwtig. Yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru, ymwelodd arolygwyr â'r ysgol yn ddirybudd ym mis Gorffennaf 2021, gyda ffocws penodol ar allu'r ysgol i reoli ymddygiad disgyblion ac effaith hyn ar ddarpariaeth cwricwlwm priodol i ddisgyblion gan yr ysgol.

Hefyd, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Mai 2022 i gynnal ymweliad monitro blynyddol. Adeg yr ymweliad hwn, roedd yr ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd, a nodwyd meysydd ychwanegol o ddiffyg cydymffurfio.

Nid oedd yr ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, roedd yn ofynnol i'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd isod ar gyfer pob safon:

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Nid oedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, roedd yn ofynnol i'r ysgol:

- sicrhau bod ganddi bolisi cwricwlwm sydd wedi'i chofnodi'n ysgrifenedig a'i gefnogi gan gynlluniau a chynlluniau gwaith priodol, ac yn ei roi ar waith yn effeithiol [1(2)]
- sicrhau bod addysg dan oruchwyliaeth amser llawn ar gyfer disgyblion o oedran ysgol gorfodol [1(2)(a)(i)
- pan fydd gan ddisgyblion ddatganiad, sicrhau bod yr addysg a ddarperir yn cyflawni ei gofynion [1(2)(e)]
- sicrhau bod gwersi'n cael eu cynllunio'n dda, dulliau addysgu yn effeithiol, bod gweithgareddau addas yn cael eu defnyddio, ac amser dosbarth yn cael ei reoli'n ddoeth [1(3)(c)]

## Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Nid oedd yr ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003, roedd yn ofynnol i'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant yn yr ysgol sy'n cydymffurfio â Chanllawiau Llywodraeth Cymru [3(2)(b)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion sy'n amlinellu'r cosbau y dylid eu mabwysiadu os bydd disgyblion yn camymddwyn [3(2)(d)]
- cael polisi ysgrifenedig boddhaol ar Gymorth Cyntaf, a'i weithredu [3(6)]
- defnyddio staff ysgol mewn ffordd sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael eu goruchwylio'n briodol [3(8)]

Yn dilyn yr ymweliad hwn, gofynnwyd i'r ysgol lunio cynllun gweithredu ôl-arolygiad. Ymwelodd tîm o AEF â'r ysgol ym mis Ionawr a mis Mehefin 2023 i drafod cynnydd yr ysgol yn erbyn eu cynllun gweithredu. Yn dilyn hynny, ymwelodd AEF â'r ysgol ym mis Rhagfyr 2023 i werthuso cydymffurfiad yr ysgol â'r safonau nad oeddent yn cydymffurfio yn y gorffennol.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Ers adeg yr ymweliad monitro yn 2022, mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cryf yn ymateb i'r argymhellion a'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r ysgol bellach yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Mae staff yn Ysgol Talocher yn deall anghenion eu disgyblion yn dda iawn. Mae ganddynt berthnasoedd gweithio cryf â'r holl ddisgyblion ac maent trin disgyblion â chydraddoldeb ac urddas.

Mae Aspris Children's Services wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ysgol. Mae hyn wedi galluogi arweinwyr i wella'r safle a'r adnoddau yn yr ysgol, yn ogystal â sicrhau bod staff yr ysgol yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol.

Mae'r ysgol yn monitro ymddygiad yn effeithiol dros gyfnod ac yn rhoi camau amserol a buddiol ar waith i wella ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol wedi gwella'n sylweddol.

Mae arweinwyr wedi cryfhau'r prosesau atgyfeirio ar gyfer derbyn i sicrhau bod y ddarpariaeth yn briodol i anghenion unigol y disgyblion sy'n cael eu derbyn. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion y disgyblion yn well, a defnyddio ymagwedd fwy strategol at ddysgu proffesiynol y staff.

Ceir ethos diogelu sicr yn yr ysgol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae prosesau diogelu trylwyr ar waith i adrodd am bryderon ynghylch diogelu, ac mae'r ysgol yn gwneud atgyfeiriadau amserol i asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. Mae staff yn ymwybodol o fesurau'r ysgol ac o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o ran diogelu.

### Meysydd ar gyfer gweithredu

Mae'r ysgol wedi cryfhau ei phrosesau sicrhau ansawdd a chynllunio gwelliant. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon yn effeithiol i wella cysondeb yr addysgu a'r ddarpariaeth ehangach. Ar hyn o bryd, nid yw'r prosesau hyn yn canolbwyntio'n ddigon da ar y cynnydd a wna disgyblion.

Mae gan yr ysgol ffocws addas ar ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol yr holl ddisgyblion. Mae'r tîm ymyrraeth therapi a lles cymwys yn cynnig ystod werthfawr o gymorth ar gyfer disgyblion sy'n cynnwys cwnsela, therapi celf, therapi chwarae a llythrennedd emosiynol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol wedi gwerthuso effaith y gweithgareddau hyn eto ar les disgyblion a'u cynnydd mewn dysgu.

## Cydymffurfio â’r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu’r safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy’n dangos nad yw’r ysgol yn bodloni’r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu’r safon hon.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu’r safon hon.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu’r safon hon.

**Safon 7: Y modd yr eir i’r afael â chwynion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu’r safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestriad parhaus

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Llywodraeth Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad cyfyngedig hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgol Annibynnol 2003. Mewn ysgolion sy'n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae'r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  19/02/2024